

Heriau i'r Sector Diwylliant – Cynaliadwyedd Ariannol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4816A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Pam y gwnaethon yr archwiliad hwn a beth mae'n ei wneud.....	4
Casgliad cyffredinol	5
Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol.....	5
Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol	10
Argymhellion	14
Ynglŷn â'n gwaith.....	18
Y sefyllfa ariannol yng Nghyngor y Celfyddydau	22

Adroddiad cryno

Pam y gwnaethom yr archwiliad a beth mae'n ei wneud

- 1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Gyngor Celfyddydau Cymru (Cyngor y Celfyddydau) osod amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i gyfrannu at lesiant Cymru, nawr a thros y tymor hwy. Rhaid iddo hefyd gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio a yw Cyngor y Celfyddydau wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹ wrth osod ei amcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni.
- 2 Mae'r adroddiad yn nodi'r canfyddiadau o'n harchwiliad o'r camau y mae Cyngor y Celfyddydau yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae wedi canolbwyntio ar y pwysau ariannol sylweddol y mae Cyngor y Celfyddydau yn eu profi. Mae'r pwysau hynny'n cynnwys costau cynyddol a gostyngiad yn ei gymorth grant (GiA) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Mae ganddynt oblygiadau i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad a'i allu i gyflawni ei amcanion llesiant². Gall cynllunio ariannol effeithiol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy helpu i reoli'r materion hyn.
- 3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a oes gan Gyngor y Celfyddydau drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, i gefnogi ei amcanion llesiant. Mae'n rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu cyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru yn y sector diwylliant. Fe wnaethom gymhwyso'r un cwestiynau a meini prawf archwilio cyffredinol ym mhob corff. Fodd bynnag, roedd ein gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth yn ystyried ffactorau cyd-destunol ar gyfer pob corff, gan gynnwys gwahaniaethau mewn swyddogaethau ac yn eu hamgylchedd ariannol. Mae **Atodiad 1** yn darparu mwy o wybodaeth am ein gwaith a'n sylfaen dystiolaeth.
- 4 Rydym wedi cynnal archwiliad ar wahân i asesu i ba raddau y cymhwysodd Cyngor y Celfyddydau yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant newydd. Rydym wedi ysgrifennu at Gyngor y Celfyddydau i rannu canfyddiadau'r gwaith hwnnw. Dylid ystyried y ddau allbwn hyn ochr yn ochr â'i gilydd gan eu bod yn cynnwys canfyddiadau cysylltiedig.

¹ Mae'r Ddeddf yn nodi bod gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. I wneud hynny, rhaid i gorff ystyried pum ffordd o weithio, wedi'u crynhoi fel hirdymor, integreiddio, cyfranogiad, cydweithredu ac atal.

² Mae Cyngor y Celfyddydau wedi datblygu strategaeth newydd sy'n nodi amcanion llesiant wedi'u diweddarw ar gyfer 2024-2034. Dechreuodd y broses hon yn hydref 2022. Ar adeg ein gwaith maes archwilio, roedd y strategaeth wedi'i chymeradwyo gan Gyngor y Celfyddydau ond roedd yn aros am gymeradwyaeth gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol. Rydym yn deall bod y strategaeth a'r cynllun blynyddol ar gyfer 2024-25 ill dau wedi derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog ym mis Tachwedd 2024.

- 5 Fe wnaethom baratoi'r adroddiad hwn cyn cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Rydym yn gobeithio y bydd ein canfyddiadau a'n hargymhellion yn ddefnyddiol i Gyngor y Celfyddydau wrth iddo gynllunio ar gyfer y tymor hwy.

Casgliad cyffredinol

- 6 Ar y cyfan, canfuom y canlynol:
- roedd incwm a gwariant cyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn amrywio rhwng 2019-20 a 2023-24, yn bennaf oherwydd rhai grantiau ag amser cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd ei brif incwm GiA a loteri wedi gostwng mewn termau real cyn toriad sylweddol i GiA ar ddechrau 2024-25.
 - mae gan Gyngor y Celfyddydau ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol ac fe weithredodd yn gyflym i fynd i'r afael â heriau ariannol wrth geisio diogelu ei fuddsoddiad yn y celfyddydau. Byddai mwy o ffocws ar ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd a pherfformiad ariannol Cyngor y Celfyddydau dros y tymor canolig yn helpu i lunio penderfyniadau yn y dyfodol.
- 7 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi rhagor o fanylion am ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn a ganfuom: y sefyllfa ariannol

Roedd incwm a gwariant cyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn amrywio rhwng 2019-20 a 2023-24, yn bennaf oherwydd rhai grantiau ag amser cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd ei brif incwm GiA a loteri wedi gostwng mewn termau real cyn toriad sylweddol i GiA ar ddechrau 2024-25

- 8 Mae **paragraffau 9 i 26** yn rhoi trosolwg cyffredinol o nodweddion allweddol sefyllfa ariannol Cyngor y Celfyddydau. Mae'r data a adroddwyd yn dod yn bennaf o ddatganiadau ariannol blynyddol ar gyfer 2019-20 i 2023-24. Mae cyfres o arddangosion yn **Atodiad 2** yn darparu manylion ychwanegol.

Incwm

- 9 Yn 2023-24, incwm cyffredinol Cyngor y Celfyddydau oedd £62.3 miliwn. Ei phrif ffynonellau cyllido yw Llywodraeth Cymru, yn bennaf ar ffurf GiA, a Chronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG). Yn 2023-24, incwm GiA Cyngor y

Celfyddydau oedd £33.7 miliwn ac roedd ei dderbyniadau o'r CDLG yn £17.2 miliwn³.

- 10 Mae'r ddwy ffrwd ariannu hyn yn eistedd mewn cyfrifon ar wahân. Mae'r GiA yn eistedd yng nghyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau ac mae'r CDLG yn eistedd yng nghyfrif dosbarthu'r loteri.
- 11 Rhwng 2019-20 a 2022-23, cynyddodd incwm cyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn sylweddol, o £35.8 miliwn i £61.2 miliwn. Roedd incwm GiA yn gymharol sefydlog ac roedd y cynnydd yn bennaf oherwydd iddo dderbyn grantiau penodol ag amser cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys Cyllid Adfer Diwylliannol⁴ o £18.3 miliwn yn 2020-21 a £12.7 miliwn yn 2021-22. Yn 2022-23, roedd yn cynnwys grant cyfalaf o £24.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer theatrau. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi cyfanswm incwm y cyfrif gweithgareddau cyffredinol rhwng 2019-20 a 2023-24.
- 12 Fodd bynnag, roedd Cyngor y Celfyddydau wedi derbyn £9.15 miliwn yn llai o gyllid GiA rhwng 2020-21 a 2023-24 na phe bai wedi codi yn unol â chwyddiant ar ôl 2019-20⁵. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd GiA hefyd yn cynnwys rhai elfennau amser cyfyngedig. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi'r incwm GiA gwirioneddol ochr yn ochr â'r gymhariaeth termau real hon⁶.
- 13 Nid yw'r union swm o incwm y mae Cyngor y Celfyddydau yn ei dderbyn gan CDLG wedi'i warantu. Gostyngodd incwm CDLG ychydig rhwng 2020-21 a 2023-24, er bod hyn wedi'i wrthbwysu'n bennaf gan gynnydd mewn incwm buddsoddi ar falansau yn CDLG ac incwm arall. Roedd hyn yn golygu bod yr incwm cyffredinol o fewn cyfrif dosbarthu'r loteri yn aros yn gymharol sefydlog rhwng 2019-20 a 2023-24.
- 14 Serch hynny, derbyniodd Cyngor y Celfyddydau £7.1 miliwn yn llai o enillion o CDLG rhwng 2020-21 a 2023-24 na phe baent wedi codi yn unol â chwyddiant ar ôl 2019-20. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi'r enillion o CDDG ar gyfer y cyfnod hwn ochr yn ochr â'r gymhariaeth termau real hon.

³ Y rhan fwyaf o incwm CDLG yw'r gyfran o enillion o'r loteri genedlaethol. Mae cydrannau ychwanegol cyllid CDLG yn cynnwys 'incwm buddsoddi ar falansau o'r CDLG' ynghyd â rhai elfennau eraill. Roedd y cydrannau ychwanegol yn darparu incwm o £1.5 miliwn yn 2023-24.

⁴ Helpodd Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru y sectorau diwylliannol a threftadaeth gydag effeithiau pandemig COVID-19. Dosbarthodd Cyngor y Celfyddydau gyfran sylweddol o'r cyllid hwn i sefydliadau celfyddydol eraill.

⁵ Ar gyfer ein dadansoddiad termau real, fe wnaethom ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros Trysorlys EF ar brisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Fe wnaethom seilio ein cyfrifiad ar gyfanswm GiA a dderbyniodd Cyngor y Celfyddydau bob blwyddyn.

⁶ Mewn llythyr diweddar at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, nododd Cyngor y Celfyddydau fod ei gyllideb 37% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010.

Gwariant

- 15 Mae Cyngor y Celfyddydau yn aildosbarthu llawer o'i incwm i ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Yn 2023-24, roedd cyllid grant yn cyfrif am 80% o'r holl wariant cyfrif gweithgareddau cyffredinol. Yn yr un flwyddyn, aeth 87% o wariant y cyfrif dosbarthu loteri ar y celfyddydau. Mae gweddill y cyllid yn cynnwys costau cymorth, fel staffio a gweinyddu rheoli. Mae **Arddangosion 6 a 7** yn nodi'r cyfanswm gwariant yn ôl math ar gyfer pob cyfrif.
- 16 Roedd y cynnydd mewn incwm gweithgareddau cyffredinol y cyfeirir atynt ym **mharagraff 11** yn cyd-fynd â chynnydd cyfatebol mewn gwariant, yn bennaf oherwydd gweithgareddau a ariennir gan grant yn 2020-21 a 2021-22.
- 17 Mae Llywodraeth Cymru yn gosod cap ar gostau rhedeg ar gyfer y cyfrif gweithgareddau cyffredinol. Y cap oedd £2.015 miliwn ar gyfer 2023-24. Mae'n cyfyngu ar y cyllid y gall Cyngor y Celfyddydau ei wario ar ei staff a'i swyddogaethau ei hun.
- 18 Cynyddodd nifer y staff o 2019-20 i 2023-24. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 86 o staff cyfwerth ag amser llawn yn 2023-24 o'i gymharu â 78 yn 2019-20⁷. Nododd ymarfer diswyddo gwirfoddol ac ailstrwythuro uwch dîm arweinyddiaeth yn gynnar yn 2024 13 aelod o staff a fyddai'n gadael y sefydliad.

Cronfeydd wrth gefn

- 19 Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan Gyngor y Celfyddydau gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig yn ei gyfrif gweithgareddau cyffredinol o £1.9 miliwn (2023: £1.1 miliwn) a chronfeydd wrth gefn cyfyngedig o £0.8 miliwn (2023: £1.6 miliwn). Gall gario drosodd o un flwyddyn i'r nesaf dim mwy na 2% o gyfanswm ei incwm nad yw'n incwm loteri.
- 20 Dim ond at ddibenion penodol y gall Cyngor y Celfyddydau ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn y cyfrif gweithgareddau cyffredinol. Gall ddefnyddio cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig yn hyblyg, gan gynnwys ar gyfer rheoli heriau ariannol fel gostyngiadau mewn GiA, Fodd bynnag, o ystyried y terfyn ar gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig y gall Cyngor y Celfyddydau eu cario drosodd, nid ydynt yn chwarae rhan sylweddol yn ei reolaeth ariannol.
- 21 Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan gyfrif dosbarthu'r loteri gronfeydd wrth gefn o £4.5 miliwn (2023: £5.3 miliwn). Nid oes gan y cronfeydd wrth gefn hyn yr un cyfyngiadau â'r cyfrif gweithgareddau cyffredinol. Gall Cyngor y Celfyddydau eu defnyddio i ariannu prosiectau loteri sy'n bodloni cyfeiriadau polisi cyffredinol y loteri. Ar ddiwedd 2020-21, roedd gan Gyngor y Celfyddydau falans wrth gefn o £12.3 miliwn yn ei gyfrif dosbarthu'r loteri. Roedd hyn oherwydd bod y pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar ei allu i roi cyllid loteri y flwyddyn honno.

⁷ Yn unol â'i fodel cyflog, mae Cyngor y Celfyddydau yn rhannu costau staff rhwng y cyfrif gweithgareddau cyffredinol a'r cyfrif loteri.

Newidiadau i'r GiA ar gyfer 2024-25 a 2025-26

- 22 Derbyniodd Cyngor y Celfyddydau doriad sylweddol i'w GiA ar gyfer 2024-25. Roedd papur cyllideb Mawrth 2024 i'r Cyngor⁸ yn nodi ei fod wedi derbyn toriad o 10.5% i'w GiA o'i gymharu â'r swm a nodir mewn cyllideb dair blynedd ddangosol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi iddo o'r blaen ar gyfer 2022-23 i 2024-25.
- 23 Rydym wedi cyfrifo bod y GiA a ddyfarnwyd i ddechrau ar gyfer 2024-25 8.6% yn llai nag a dderbyniodd Cyngor y Celfyddydau yn 2023-24⁹. Yn 2023-24, derbyniodd Cyngor y Celfyddydau GiA o £33.7 miliwn ac yn 2024-25 dyfarnwyd £30.8 miliwn iddo i ddechrau.
- 24 Ym mis Medi 2024, derbyniodd Cyngor y Celfyddydau gyllid refeniw ychwanegol o £1.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol¹⁰. Ym mis Rhagfyr 2024, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai Cyngor y Celfyddydau yn derbyn £1 miliwn arall i gefnogi cyrff celfyddydol yn 2024-25¹¹. Mae'r dyraniadau hyn yn ystod y flwyddyn yn gwneud yn iawn am rywfaent o'r gostyngiad cychwynnol mewn cyllid GiA ar gyfer 2024-25 a'i effaith ar gyllid ar gyfer cyrff celfyddydol eraill. Fodd bynnag, roedd y dyraniadau ychwanegol hyn ar gyfer defnydd cyfyngedig. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd wedi nodi bod dyraniadau o'r fath yn ystod y flwyddyn yn ei gwneud hi'n anoddach cynllunio yn hyderus ac yn cyflwyno heriau gweinyddol.
- 25 Yn ddiweddar, cwblhaodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd ymchwiliad ar effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru¹². Nid yw ein harchwiliad yn dod i gasgliadau ar lefelau cyllid ond yn hytrach yn canolbwyntio ar sut mae Cyngor y Celfyddydau yn ymateb i heriau ariannol. Nodwn fod yr ymchwiliad wedi cyfrifo, wrth edrych yn ôl dros gyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2024-25, bod cyllid refeniw Cyngor y Celfyddydau wedi gostwng tua 29% mewn termau real.
- 26 Wrth gwblhau'r adroddiad hwn, cynigiodd Llywodraeth Cymru gyllid GiA refeniw o £33.3 miliwn i Gyngor y Celfyddydau fel rhan o'i gyllideb ar gyfer 2025-26. Byddai

⁸ Mae'r Cyngor yn gyfreithiol gyfrifol am lywodraethu gwaith Cyngor y Celfyddydau yn gyffredinol. Ei brif gyfrifoldeb yw sicrhau bod Cyngor y Celfyddydau yn buddsoddi cyllid Llywodraeth Cymru a'r loteri yn effeithiol.

⁹ Fe wnaethom seilio'r cyfrifiad hwn ar gyfanswm y symiau GiA (refeniw a chyfalaf) a nodir yn llythyrau cyllido Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023 ar gyfer 2023-24 a Mai 2024 ar gyfer 2024-25.

¹⁰ Darparodd Llywodraeth Cymru y cyllid ychwanegol i alluogi Cyngor y Celfyddydau i ymestyn ei Gronfa Diogelu Swyddi ar gyfer y sector celfyddydau. Mae elfen ychwanegol sy'n canolbwyntio ar yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio ato fel 'cymorth gwytnwch sefydliadol'.

¹¹Nododd [datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru](#) y byddai'r £1 miliwn hwn yn cefnogi 60 o sefydliadau.

¹² Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, [Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon](#), Ionawr 2025

hyn yn golygu ei fod yn dychwelyd i'r un lefel refeniw mewn termau arian parod â 2023-24. O ystyried amseriad ein hadolygiad, nid ydym wedi edrych ar sut mae Cyngor y Celfyddydau yn ymateb i hyn am y flwyddyn i ddod.

Yr hyn a ganfuom: trefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol

Mae gan Gyngor y Celfyddydau ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a gweithredodd yn gyflym i fynd i'r afael â heriau ariannol wrth geisio diogelu ei fuddsoddiad yn y celfyddydau. Byddai mwy o ffocws ar ffactorau a allai effeithio ar gynaliadwyedd a pherfformiad ariannol Cyngor y Celfyddydau dros y tymor canolig yn helpu i lunio penderfyniadau yn y dyfodol

Mae gan Gyngor y Celfyddydau ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a'r risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol, yn ogystal â'r risgiau sy'n wynebu'r sector celfyddydol ehangach

- 27 Gall asesiad cadarn o'r sefyllfa ariannol a'r rhagolygon helpu i sicrhau dull strategol gwybodus o gynllunio ariannol. Gall dealltwriaeth gyson o'r sefyllfa honno ar draws uwch arweinyddiaeth helpu i sicrhau perchnogaeth a rennir ar y dull gweithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd pwysau sylweddol ar gyllid ac efallai y bydd angen penderfyniadau anodd.
- 28 Canfuom fod gan uwch staff ddealltwriaeth dda o'r heriau ariannol a'r amrywiol risgiau yn y dyfodol i'r sefydliad a'r sector celfyddydau ehangach. Roeddent yn meddwl y byddai unrhyw doriadau cyllid yn y dyfodol yn debygol o effeithio ar allu Cyngor y Celfyddydau i ymgymryd â rhai prosiectau strategol, ac ar y symiau y bydd yn gallu eu talu i'r sector. Byddai hyn hefyd yn debygol o effeithio ar allu Cyngor y Celfyddydau i gyflawni ei amcanion llesiant.
- 29 Mae Cyngor y Celfyddydau yn nodi, cofnodi a monitro risgiau i'w gynaliadwyedd ariannol ei hun, y cyrff y mae'n eu hariannu a'r sector ehangach. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cofnodi risgiau o'r fath ar y gofrestr risgiau corfforaethol, mewn papurau eraill y Cyngor, ac yn ei gyfrifon. Nid yw'r risgiau a restrir wedi'u cyfyngu i newidiadau mewn cyllid ac yn cwmpasu'r rhai sydd â goblygiadau ariannol mwy anuniongyrchol, fel yr argyfwng costau byw. Mae'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn monitro'r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae trefniadau Cyngor y Celfyddydau yn ei alluogi i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, a allai fod o gymorth wrth lywio'r gwaith cynllunio tymor hwy.

- 30 Dywedwyd wrthym fod sganio'r gorwel yn cael ei gynnal mewn gwahanol fforymau. Mae'r dadansoddiad CGCB o sganio'r gorwel¹³ yn y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol yn rhoi tystiolaeth o rywaint o hyn¹⁴. Cynhaliodd Cyngor y Celfyddydau ymgynghoriad cyhoeddus hefyd yn 2022 i lywio ei adolygiad buddsoddi.¹⁵ Nododd yr ymgynghoriad heriau amrywiol sy'n wynebu'r sector.
- 31 Derbyniodd y Cyngor 'asesiad effaith cyfunol' ochr yn ochr â'i gyllideb 2024-25. Roedd yr asesiad effaith yn cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â gofynion statudol eraill fel effeithiau ar gydraddoldeb, er nad ydym wedi adolygu'r asesiad yn fanwl.
- 32 Mae Cyngor y Celfyddydau yn monitro ei sefyllfa ariannol bresennol yn rheolaidd trwy wahanol fecanweithiau, gan gynnwys papurau sy'n mynd i gyfarfodydd y Cyngor a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Mae adolygiadau cyllideb canol blwyddyn yn mynd i gyfarfodydd y Cyngor, ac maent yn cynnwys ystyried newidiadau arfaethedig i'r gyllideb. Mae gan Gyngor y Celfyddydau hefyd gyfarfodydd monitro chwarterol gyda Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys ystyried sefyllfa ariannol Cyngor y Celfyddydau.

Gweithredodd Cyngor y Celfyddydau yn gyflym i fynd i'r afael â'r heriau ariannol ar gyfer 2024-25, gan osod cyllideb gytbwys wrth geisio sicrhau arbedion ar gostau mewnol a blaenoriaethu cyllid i sefydliadau celfyddydol

- 33 Mae'n bwysig bod gan gyrff gynlluniau clir, cyflawnadwy i helpu i gyflawni cyllideb gytbwys. Gall cynllunio camau gweithredu, boed yn gynhyrchu incwm neu arbedion, dros sawl blwyddyn helpu i sicrhau bod cyrff mewn sefyllfa dda i wneud hyn. Gall helpu i sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gynllunio a gweithredu cynigion yn effeithiol, gan gynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys ymgymryd â chyfranogiad effeithiol ac archwilio cyfleoedd i gydweithio.
- 34 Yn wreiddiol, gosododd Cyngor y Celfyddydau gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 yn Hydref 2023. Ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau yr union ostyngiad yn y GiA ym mis Rhagfyr 2023, bu'n rhaid newid y gyllideb. Roedd Cyngor y Celfyddydau yn gallu gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024-25, ond roedd angen gwneud arbedion ariannol ychwanegol yn gynnar yn 2024.

¹³ CGCB yw Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau.

¹⁴ Mae'r Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol wedi'i gynllunio i ddarparu sicrwydd ynghylch strwythurau llywodraethu a rheolaethau rheoli mewnol Cyngor y Celfyddydau. Mae'n cynnwys risgiau cysylltiedig posibl a bwriedir iddo gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r gofrestr risgiau corfforaethol.

¹⁵ Mae'r broses adolygu buddsoddi yn penderfynu pa sefydliadau fydd yn derbyn cyllid aml-flwyddyn. Arweiniodd y broses at gytundebau cyllido newydd gyda chyrff celfyddydol o 1 Ebrill 2024. Nid ydym wedi edrych ar y penderfyniadau adolygu buddsoddi a'u heffaith yn yr archwiliad hwn.

- 35 Ystyriodd y Cyngor wybodaeth am sefyllfa'r gyllideb ac opsiynau i helpu aelodau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac amserol cyn cytuno ar arbedion. Derbyniodd y Cyngor sawl papur clir a chryno yn trafod y dull gweithredu o ran y gyllideb ar gyfer 2024-25 yn hydref a gaeaf 2023-24 cyn cytuno ar y gyllideb ddiwygiedig ym mis Mawrth 2024.
- 36 Penderfynodd Cyngor y Celfyddydau amsugno toriadau cyllid cymaint â phosibl, er mwyn diogelu'r sector celfyddydau. Yn 2023, roedd wedi ymrwymo i ariannu 81 o sefydliadau celfyddydol yn dilyn ei adolygiad buddsoddi (gweler **paragraff 30**), i fyny o 67 o'r blaen. Mae Cyngor y Celfyddydau yn cyfeirio atynt fel Sefydliadau a Ariennir yn Amlflwyddyn (MYFOs). Mae'n eu hariannu i raddau helaeth trwy GiA¹⁶. Felly, roedd y gostyngiad mewn GiA yn gofyn i Gyngor y Celfyddydau ystyried cyfran yr arbedion y gallai ei gyflawni'n fewnol, o'i gymharu â lefel y toriadau y byddai angen iddo eu trosglwyddo i'r sefydliadau hyn.
- 37 Modelodd Cyngor y Celfyddydau oblygiadau ariannol gwahanol doriadau canrannol a phenderfynodd leihau cyllid MYFOs 2.5%. Nododd hefyd raglen o ddiswyddiadau gwirfoddol ac ailstrwythuro uwch dîm arweinyddiaeth i sicrhau arbedion o fewn y sefydliad. Ochr yn ochr â hyn, gwnaeth arbedion trwy leihau gwariant ar draws sawl llinell gyllideb.
- 38 Collodd Cyngor y Celfyddydau nifer sylweddol o staff drwy'r ymarfer diswyddo gwirfoddol ac ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (gweler **paragraff 18**). Mae wedi newid ei fodel gweithredu, yn rhannol i adlewyrchu'r gostyngiad mewn capasiti. Mae bellach yn ymgymryd â monitro 'cyffyrddiad ysgafnach' o'r gweithgaredd a ddarperir gan ei MYFOs (gweler **paragraff 51**). Ar adeg ein gwaith maes, roedd Cyngor y Celfyddydau yn parhau i fod yn hyderus y byddai'n gallu cynnal rhaglenni a mentrau presennol er gwaethaf colli staff a'r cynnydd mewn MYFOs.
- 39 Ar ôl cymryd y camau hyn ar gyfer 2024-25, mae Cyngor y Celfyddydau o'r farn bod arbedion yn y dyfodol ar gostau gweithredu a rhedeg yn debygol o fod yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen iddo drosglwyddo cyfran uwch o unrhyw doriadau arian parod neu dermau real yn y dyfodol mewn GiA i gyrff a ariennir. Mae hyn yn risg i lefel y gweithgaredd y gallant ei gyflawni, sydd yn ei dro yn risg i gyflawni amcanion llesiant Cyngor y Celfyddydau. Mae hefyd yn risg bosibl i hyfywedd ariannol rhai MYFOs.

¹⁶ Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn defnyddio canran fach o incwm y loteri i wneud iawn am unrhyw ddiffyg, lle bo'n cael ei ganiatáu o dan gyfarwyddiadau'r loteri a lle mae'n ystyried ei fod yn briodol.

Mae Cyngor y Celfyddydau yn alinio ei gyllid GiA â'i amcanion strategol, ond byddai mwy o ffocws ar ffactorau a allai effeithio ar ei gynaliadwyedd ariannol, dros y tymor canolig yn helpu i lunio penderfyniadau yn y dyfodol

- 40 Mae dull strategol o gefnogi cynaliadwyedd ariannol yn bwysig. Mae'n darparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ac yn helpu cyrrff i sicrhau eu bod mewn sefyllfa dda i gydbwyso ystyriaethau polisi ac adnoddau, yn enwedig wrth i heriau newydd ddod i'r amlwg.
- 41 Mae Cyngor y Celfyddydau wedi datblygu strategaeth ddeng mlynedd lefel uchel¹⁷ sy'n nodi chwe egwyddor o'i adolygiad buddsoddi.¹⁸ Yr egwyddorion hyn fydd amcanion llesiant Cyngor y Celfyddydau. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrthym ei fod wedi cymryd y safbwynt tymor hwy hwn, yn rhannol, i gefnogi cynllunio mwy effeithiol yn wyneb ansicrwydd cyllido.
- 42 Mae Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod ei fod yn dibynnu'n helaeth ar y sefydliadau celfyddydol y mae'n eu hariannu i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun. Rhaid i MYFOs ddangos eu hymrwymiad i'r chwe egwyddor cyn derbyn cyllid.
- 43 Arweiniodd yr adolygiad buddsoddi hefyd at newid dull gweithredu Cyngor y Celfyddydau o ran cyllido. Yn hytrach na darparu cyllid am dymor penodol o bum mlynedd, mae'r dull newydd yn darparu'r potensial ar gyfer perthynas ariannu barhaus gyda MYFOs, yn amodol ar dargedau yn y cytundeb cyllido yn cael eu bodloni. Mae Cyngor y Celfyddydau hefyd yn ceisio cynnig mwy o hyblygrwydd fel y gall MYFOs addasu eu cynnig dros amser. Dyma enghraifft o Gyngor y Celfyddydau yn cynllunio ar gyfer y tymor hwy ac yn ystyried sut y gall ddefnyddio ei adnoddau i gyflawni ei amcanion.
- 44 Er bod strategaeth a chyllid Cyngor y Celfyddydau i'r sector celfyddydau yn canolbwyntio ar y tymor hwy, mae'n ymgymryd â'i gynllunio ariannol yn flynyddol. Mae'n bwriadu ariannu gwaith dros sawl blwyddyn, ond mae'r union gyllid yn cael ei wneud yn flynyddol pan fydd yn gwybod beth yw ei ddyraniadau gan Lywodraeth Cymru a'r CDLG.
- 45 Nid oes gan Gyngor y Celfyddydau ddogfen strategaeth ariannol ffurfiol i helpu i gefnogi ei gydnerthedd ariannol yn y dyfodol. Ym marn Cyngor y Celfyddydau, mae hyn yn adlewyrchu patrwm ariannu blynyddol, ac o ganlyniad, ansicr, ffrydiau incwm GiA a CDLG.
- 46 Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor Celfyddydau yn modelu effaith newidiadau tebygol i'r cyllid y mae'n ei dderbyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf. Ym mis Medi

¹⁷ Cyngor Celfyddydau Cymru, [Ein Strategaeth 2024-2034](#)

¹⁸ Y chwe egwyddor o'r adolygiad buddsoddi yw Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltiad, Y Gymraeg, Cyfiawnder Hinsawdd, Meithrin Talent, a Thrawsnewid. Mae [gwefan Cyngor y Celfyddydau](#) yn darparu disgrifiad pellach. Mae tri phennawd o'r chwe egwyddor wedi newid ychydig yn strategaeth ddrafft Cyngor y Celfyddydau 2024-2034 sef Cydraddoldeb ac Ymgysylltu, Datblygu Talent, a Thrawsnewid. Mae'r tri phennawd arall heb newid.

2023, defnyddiodd ragdybiaethau penodol, megis incwm loteri o £18 miliwn, ym mis Medi 2023 i lywio ei gyllideb amcangyfrifedig ddrafft ar gyfer 2024-25. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrthym ei fod wedi cynnal modelu ychwanegol i gwmpasu senarios cyllido eraill ar gyfer 2024-25, ond nid ydym wedi cael tystiolaeth o hyn.

- 47 Yn ystod ein gwaith maes, cafwyd rhywfaint o gydnabyddiaeth gan swyddogion o'r rhinweddau o wneud gwaith modelu ychwanegol yn y dyfodol. Gallai modelu dros y tymor canolig helpu i nodi risgiau cyllido a llywio dull mwy strategol o gynllunio ariannol. Gallai Cyngor y Celfyddydau hefyd feincnodi ei ragdybiaethau gyda chyrff hyd braich eraill Llywodraeth Cymru.
- 48 Mae lle hefyd i Gyngor y Celfyddydau ystyried y ffactorau sy'n debygol o lunio ei gynaliadwyedd ariannol a'r sector celfyddydol ehangach dros y tymor canolig. Byddai hyn o reidrwydd yn tynnu ar unrhyw fodelu o lefelau cyllid allanol, yn ogystal â phwysau costau. Gallai hefyd gynnwys unrhyw ofynion ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol, megis lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni ei ymrwymiad cyfiawnder hinsawdd dros y tymor canolig.
- 49 Gallai dod â'r ffactorau hyn at ei gilydd, ac edrych arnynt dros y tymor canolig, gefnogi cynllunio cynharach lle gallai fod angen arbedion ariannol. Gallai hefyd helpu Cyngor y Celfyddydau i flaenoriaethu ei adnoddau, gyda'r bwriad o gyflawni ei amcanion tymor hwy. Gallai'r wybodaeth hefyd fod yn sail ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar effaith debygol newidiadau mewn cyllid, ochr yn ochr â thystiolaeth am effaith buddsoddi yn y celfyddydau¹⁹.

Mae Cyngor y Celfyddydau yn datblygu dull newydd o gasglu gwybodaeth am gyfraniad MYFOs at yr amcanion llesiant ond nid yw eto wedi nodi mesurau perfformiad i asesu cynnydd cyffredinol ac unrhyw effeithiau toriadau cyllid yn eu herbyn

- 50 Mae trefniadau adrodd clir, rheolaidd a thryloyw yn bwysig er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol o'r sefyllfa ariannol, y camau y mae cyrff gweithredu yn eu cymryd i sicrhau eu cynaliadwyedd ariannol a'r effaith ar eu rhanddeiliaid a'u hamcanion llesiant.
- 51 Fel y disgrifir ym **mharagraff 32**, mae Cyngor y Celfyddydau yn monitro ei sefyllfa ariannol bresennol yn rheolaidd. Mae hefyd yn monitro sefyllfa ariannol y MYFOs yn rheolaidd, ond mae wedi lleihau amllder adolygiadau llawn o chwarterol i chwe mis, gyda gwiriad bob tri mis. Mae bellach yn rhoi mwy o ddibyniaeth ar y MYFOs yn adrodd eu cynnydd eu hunain trwy gydol y flwyddyn. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi gwneud y newidiadau hyn, yn rhannol, i adlewyrchu newidiadau yn ei gapasiti yn dilyn yr ymarfer diswyddo gwirfoddol (gweler **paragraff 18**).

¹⁹ Mae Cyngor y Celfyddydau wedi comisiynu adroddiad annibynnol sy'n amcangyfrif enillion ar fuddsoddiad o £2.51 am bob £1 a warir. Gweler Deyton Bell a Gwrthdwylliant, [Asesiad Economaidd Cyngor Celfyddydau Cymru](#), Tachwedd 2024.

Gyda'r newidiadau a gyflwynwyd ar gyfer 2024-25, nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn gallu rhannu unrhyw wybodaeth gyda ni am eu heffaith ar adeg ein gwaith maes.

- 52 Mae Cyngor y Celfyddydau yn datblygu dull newydd o gasglu gwybodaeth am berfformiad MYFOs i nodi eu cyfraniad at yr amcanion llesiant. Bydd angen iddo dynnu hynny ynghyd i ddeall sut mae ei MYFOs yn ei helpu i gyflawni ei strategaeth. Bydd angen iddo hefyd ddeall yr effaith y gallai unrhyw newidiadau yn ei gyllid i MYFOs fod yn ei gael ar eu gallu i gyflawni.
- 53 Yn fwy cyffredinol, nid yw strategaeth Cyngor y Celfyddydau yn cynnwys mesurau perfformiad, nac unrhyw wybodaeth am sut mae'n bwriadu asesu'r effaith dros y cyfnod o ddeng mlynedd. Gan fod yr amcanion llesiant yn 'egwyddorion', yn hytrach nag amcanion 'CAMPUS' (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol), gall fod yn anodd i Gyngor y Celfyddydau asesu'r cynnydd tuag atynt. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi nodi 'mesurau llwyddiant' yn ei gynllun blyneddol, er bod y rhain yn gyffredinol yn ymwneud â chyflawni gweithgareddau penodol. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dweud wrthym y bydd yn adeiladu ar y mesurau hyn mewn cynlluniau blyneddol yn y dyfodol a bydd pwyntiau adolygu allweddol i ystyried cyflawni yn erbyn y strategaeth.
- 54 Nid ydym wedi adolygu'n fanwl i ba raddau y mae cyllid y loteri wedi'i alinio â'r amcanion llesiant. Fodd bynnag, o ystyried y symiau dan sylw, bydd hyn yn ystyriaeth bwysig ac yn gyfle i Gyngor y Celfyddydau wneud y defnydd mwyaf o adnoddau wrth fynd ar drywydd ei strategaeth.

Argymhellion

- 55 Rydym wedi cyflwyno argymhellion yr ydym yn disgwyl i'r Cyngor Celfyddydau ymateb iddynt.

Arddangosyn 1: ein hargymhellion

Cynllunio tymor canolig ar gyfer cynaliadwyedd ariannol

- A1 Dylai Cyngor y Celfyddydau archwilio'r ffactorau sy'n debygol o lunio ei gynaliadwyedd ariannol a chynaliadwyedd y sector celfyddydol ehangach dros o leiaf y tair blynedd nesaf a hirach, lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys:
- modelu lefelau cyllid allanol, yn ogystal â phwysau costau, a meincodi'r rhagdybiaethau gyda chyrff eraill;
 - ystyried meysydd y gallai fod angen buddsoddiad newydd neu ychwanegol arnynt;
 - ystyried risgiau, i'r sefydliad a'r sector celfyddydau, a allai effeithio ar adnoddau;
 - opsiynau ar gyfer arbedion yn y dyfodol;

- ystyried sut y bydd yn parhau i gyflawni ei strategaeth a'i amcanion llesiant yn y cyd-destun hwn.

Dylai hon fod yn broses barhaus, yn hytrach nag fel ymarfer untro. (Gweler **paragraffau 46 i 49**)

Mesur cynnydd ac asesu effaith

A2 Dylai Cyngor y Celfyddydau ddatblygu gwybodaeth berfformiad briodol i'w alluogi i asesu cynnydd ac effaith wrth gyflawni ei strategaeth newydd ac amcanion llesiant. Bydd yn bwysig gosod targedau sy'n ystyried gostyngiadau mewn cyllid. Dylai'r wybodaeth am berfformiad gwmpasu'r canlynol:

- mesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i amcanion llesiant sy'n cipio'r effaith hirdymor y mae'n ceisio ei chyflawni.
- cefnogi mesurau perfformiad i fonitro cynnydd wrth gyflawni'r camau i gyflawni amcanion llesiant, sydd wedi'u halinio'n glir â'r mesurau perfformiad strategol. Mae'r mesurau hyn yn debygol o ymwneud â pherfformiad Sefydliadau a Ariennir Amlflwyddyn (MYFOs) a gwaith arall a gyflawnir gan Gyngor y Celfyddydau.

Dylai Cyngor y Celfyddydau wneud hyn wrth iddo symud ymlaen â'i strategaeth a datblygu ei gynllun blynyddol ar gyfer 2025-26. (Gweler **paragraffau 52 a 53**)

A3 Dylai Cyngor y Celfyddydau asesu effaith gostyngiadau diweddar mewn staffio ac yn amllder ei fonitro o MYFOs. Dylai Cyngor y Celfyddydau adrodd yr asesiad hwn i uwch arweinwyr a'r Cyngor. (Gweler **paragraffau 38 a 51**)

Atodiad 1

Ynglŷn â'n gwaith

Cwestiynau, cwmpas a meini prawf arholiad

Aethom ati i archwilio i ba raddau y mae Cyngor y Celfyddydau yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ei drefniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Mewn perthynas â chynllunio ariannol, byddem yn disgwyl i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gynnwys ystyried yr angen i gyflawni'r canlynol:

- mynd i'r afael â phwysau ariannol ar unwaith, gan gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd ar yr un pryd.
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, fel bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni gweithgareddau a swyddogaethau craidd dros y tymor canolog a'r tymor hwy.
- cyflawni uchelgeisiau strategol, fel y'u disgrifir trwy amcanion llesiant y sefydliad. Mae hyn yn ymgorffori safbwyntiau rhanddeiliaid a dinasyddion a'r angen i gyflawni unrhyw fuddion ataliol tymor hwy.

Rydym wedi nodi ein cwestiynau a'n meini prawf archwilio generig isod. Mae ein meini prawf archwilio wedi'u llywio gan ein gwybodaeth gronnus, canllawiau CIPFA, ac adolygiadau cysylltiedig Archwilio Cymru mewn sectorau eraill. Fe wnaethom hefyd dynnu ar y 'dangosyddion cadarnhaol' yr ydym wedi'u defnyddio mewn prif archwiliadau egwyddorion datblygu cynaliadwy blaenorol. Yn ogystal, fe wnaethom ymgysylltu â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i gynllunio'r archwiliad hwn.

Rydym yn ceisio deall yr heriau ariannol sy'n wynebu Cyngor y Celfyddydau a sut mae'n ymateb. Fodd bynnag, ni wnaethom archwilio pob ffactor sydd wedi effeithio neu a allai effeithio gynaliadwyedd ariannol. Nid ydym ychwaith yn adolygu manylion y mesurau penodol y mae'n eu rhoi ar waith i gwrdd â'r heriau hynny na'i brosesau gosod cyllideb flynyddol.

Mae ein gwaith yng Nghyngor y Celfyddydau yn rhan o archwiliad ehangach sy'n cwmpasu Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Chwaraeon Cymru.

Mae'r cwestiynau a'r meini prawf yn amrywio o ran eu cymhwysedd i bob un o'r pedwar corff. Fe wnaethom ystyried hyn yn ystod ein casglu tystiolaeth ac adrodd.

Byddwn yn ystyried adrodd ar wahân ar unrhyw faterion cyffredin a nodwyd trwy ein gwaith ar draws y pedwar corff a gwmpesir gan ein harchwiliad ehangach.

Arddangosyn 2: cwestiynau a meini prawf archwilio

Yng nghyd-destun gostyngiadau refeniw GiA ar gyfer 2024-25, a oes gan y corff drefniadau priodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a'r tymor hwy, yn unol â'i amcanion llesiant?

A oes gan y corff ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol bresennol a'i ragolygon tymor canolig a risgiau tymor hwy?	• Mae'r corff wedi asesu ei ragolygon ariannol ac wedi cyfrifo unrhyw fwlch cyllido dros y tymor byr i'r tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaethau rhesymol. • Mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid, yr uwch dîm rheoli a'r bwrdd i gyd ddealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol bresennol y corff a'r rhagolygon tymor canolig, a sut mae hynny'n cymharu â chyrff tebyg. • Mae'r corff wedi nodi'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol, gan dynnu ar sylfaen dystiolaeth eang sy'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau ariannol. Gallai hyn gynnwys cynnydd yn y galw, gofynion newydd, a safbwyntiau dinasyddion.
A oes gan y corff ddull strategol clir i helpu i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy a chyflawni ei amcanion llesiant?	• Mae'r corff wedi nodi'n glir ei ddull strategol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, gyda golwg ar y tymor hwy. • Mae dull strategol y corff o ran cynaliadwyedd ariannol wedi'i ddatblygu yng ngoleuni'r weledigaeth ehangach, y strategaeth gorfforaethol a'r amcanion llesiant. • Mae dull strategol y corff o ran cynaliadwyedd ariannol yn cael ei gefnogi gan uwch reolwyr a bwrdd. • Mae'r corff wedi ystyried ystod eang o opsiynau i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor a chyflawni ei amcanion llesiant, gan gynnwys cymharu â chyrff eraill. • Mae dull strategol y corff yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn yn strategol i reoli ei heriau ariannol dros y tymor canolig. • Mae'r corff wedi modelu effaith ragweledig ei ddull strategol o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (e.e. gostyngiadau mewn gwasanaethau posibl, cau adeiladau, cynnydd mewn ffioedd, gostyngiadau mewn grantiau) a'r effaith y mae hyn yn debygol o gael ar yr amcanion llesiant a dinasyddion/rhanddeiliaid.
A yw'r corff wedi nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'i	• Mae gan y corff hanes o fynd i'r afael â heriau ariannol yn llwyddiannus.

heriau ariannol dros y tymor byr a'r tymor canolig, yng nghyd-destun cyflawni ei amcanion llesiant?	• Mae'r corff wedi nodi'r camau gweithredu, gan gynnwys unrhyw arbedion y mae'n bwriadu eu gwneud, i fynd i'r afael â'i heriau ariannol dros y tymor byr a chanolig, wedi'u cefnogi gan gynlluniau â thystiolaeth dda ar sail rhagdybiaethau rhesymol. • Mae gan y corff drefniadau ar waith i ddatblygu camau gweithredu (gan gynnwys cynigion arbedion) i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, sy'n gysylltiedig â'u cyfraniad at gyflawni'r amcanion llesiant. • Mae trefniadau'r corff yn sicrhau y gall ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu hyn (e.e. cynigion arbedion), gan gynnwys barn rhanddeiliaid.
A yw'r corff yn monitro ei gynaliadwyedd ariannol, y gwaith o gyflawni arbedion ac effaith ar yr amcanion llesiant ac yn ceisio dysgu a gwella?	• Mae gan y corff drefniadau priodol ar waith i fonitro ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, gan gynnwys ei gynaliadwyedd dros y tymor canolig i'r tymor hir. • Mae gan y corff drefniadau i adrodd yn dryloyw ar effaith/effaith ddisgwyliedig ei strategaeth ariannol ar gyflawni ei amcanion llesiant a'i rhanddeiliaid/dinasyddion i fwrdd, phwyllgorau a rhanddeiliaid eraill. • Mae'r corff yn nodi amserlenni ar gyfer cyflawni arbedion ac yn adrodd yn rheolaidd ar gynnydd wrth eu cyflwyno i uwch reolwyr, bwrdd a phwyllgorau perthnasol i alluogi goruchwyllo a chraffu. • Mae'r corff ar y trywydd iawn gyda chynlluniau i gyflawni arbedion yn 2024-25 a thu hwnt. • Mae'r corff yn ymwybodol o gryfderau/gwendidau yn ei ddull gweithredu ac yn ceisio dysgu a gwella.

Dulliau archwilio

Gwnaethom gynnal dadansoddiad lefel uchel o ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau, sy'n cwmpasu cyfnod o bum mlynedd rhwng 2019-20 a 2023-24 i'n helpu i ddeall ei sefyllfa ariannol a sut mae hynny wedi newid.

Fe wnaethom adolygu dogfennau gan gynnwys strategaeth ac amcanion llesiant Cyngor y Celfyddydau, gwybodaeth cynllunio ariannol sydd ar gael, adroddiadau monitro perthnasol, a phapurau a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgor perthnasol. Fe wnaethom hefyd gyfweld â detholiad o uwch staff ac aelod o'r Cyngor.

Fe wnaethom gasglu'r rhan fwyaf o'n tystiolaeth yn rhwng Gorffennaf a Hydref 2024 ac adolygu cyfrifon terfynol Cyngor y Celfyddydau ar gyfer 2023-24 ym mis Tachwedd 2024.

Fe wnaethom rannu ein hadroddiad drafft â Chyngor y Celfyddydau ym mis Rhagfyr 2024.


Atodiad 2

Y sefyllfa ariannol yng Nghyngor y Celfyddydau

Mae'r tablau a'r siartiau isod yn nodi rhagor o wybodaeth am y sefyllfa ariannol yng Nghyngor y Celfyddydau. Nid yw'r wybodaeth yn gynhwysfawr ond mae'n cynnwys setiau data allweddol sy'n dangos y sefyllfa ariannol newidiol rhwng 2019-20 a 2023-24. Fe wnaethom seilio ein dadansoddiad ar ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau. Mae **paragraffau 22 i 26** yn darparu gwybodaeth am gyllid ar gyfer 2024-25 a 2025-26.

Incwm


Arddangosyn 3: cyfanswm incwm cyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn ôl ffynhonnell, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau

Nodyn: Nid yw'r cyfrif gweithgareddau cyffredinol yn cynnwys incwm loteri. Mae'r categori 'grantiau ac incwm eraill' yn cynnwys sawl ffynhonnell incwm. Roedd Cyllid Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru ag amser cyfyngedig yn 2020-21 a 2021-22 a grant cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer theatrau yn 2022-23 yn cyfrif am y lefelau uwch o incwm cyffredinol ar gyfer y blynyddoedd hynny.


Arddangosyn 3: cyfanswm incwm cyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn ôl ffynhonnell, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau

Nodyn: Ar gyfer ein dadansoddiad termau real, gwnaethom ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros Trysorlys EF ar brisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Mae'r gymhariaeth termau real yn dangos beth fyddai'r GiA wedi bod rhwng 2020-21 a 2023-24 pe baent wedi codi yn unol â chwyddiant ar ôl 2019-20.

Arddangosyn 5: Enillion Cyngor y Celfyddydau o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (CDLG) mewn termau gwirioneddol ac yn erbyn cymhariaeth termau real ddamcaniaethol, 2019-20 i 2023-24




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau

Nodyn: Ar gyfer ein dadansoddiad termau real, gwnaethom ddefnyddio datchwyddwyr cynnyrch domestig gros Trysorlys EF ar brisiau'r farchnad ar gyfer 2023-24 yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2024. Mae'r gymhariaeth mewn termau real yn dangos beth fyddai enillion CDLG wedi bod rhwng 2020-21 a 2023-24 pe baent wedi codi yn unol â chwyddiant ar ôl 2019-20. Mae'r gymhariaeth hon yn eithrio'r elfennau llai o gyllid CDLG, gan gynnwys incwm buddsoddi ar falansau o CDLG.


Gwariant

Arddangosyn 6: gwariant cyfrif gweithgareddau cyffredinol Cyngor y Celfyddydau yn ôl math, 2019-20 i 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau

Arddangosyn 7: Gwariant cyfrif dosbarthu'r loteri Cyngor y Celfyddydau yn ôl math, rhwng 2019-20 a 2023-24



Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddatganiadau ariannol Cyngor y Celfyddydau



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English